

Teitl: P-05-918 Gwella mynediad i'r anabl yng ngorsaf reilffordd Trefforest fel blaenoriaeth

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Rhagfyr 2019
Petitions Committee | 3 December 2019

Cyfeirnod: RS19/11038 - 1

Rhif y ddeiseb: P-05-918

Teitl y ddeiseb: Gwella mynediad i'r anabl yng ngorsaf reilffordd Trefforest fel blaenoriaeth

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu uwchraddio Gorsaf Reilffordd Trefforest i alluogi myfyrwyr anabl i gael mynediad i Brifysgol De Cymru mewn modd cynaliadwy a chydag urddas.

Gorsaf reilffordd Trefforest yw'r prif fynediad o ran trafniadaeth gyhoeddus i Brifysgol De Cymru. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi addo buddsoddi mewn gorsafoedd rheilffordd ledled Cymru fel rhan o raglen wella 15 mlynedd ond, i lawer o bobl ifanc anabl sy'n dymuno cael mynediad i addysg brifysgol yn annibynnol, bydd y gwelliannau hyn yn rhy hwyr.

Mae'r trefniadau presennol yn yr orsaf yn golygu bod yn rhaid i bobl anabl alw am help ac yna aros i staff yr orsaf fwy na lai eu cario ar draws y bont droed. Mae hyn yn amhriodol ac yn is na'r safonau mynediad y dylem eu disgwyl ar gyfer pobl anabl yn yr 21ain ganrif. Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol



Cymru annog Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu gwelliannau i orsaf Trefforest, yn benodol i ddarparu mynediad addas i bobl anabl.

1. Cefndir

Mae gorsaf reilffordd Trefforest wedi'i lleoli ar Linell Merthyr a Llinell Rhondda, sy'n rhan o rwydwaith rheilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd. Mae'r orsaf yn gwasanaethu pentref Trefforest a Champws Prifysgol De Cymru yn Nhrefforest.

Ers i'r contract newydd ar gyfer Masnachfaint Rheilffordd Cymru a'r Gororau gael ei ddyfarnu i KeolisAmey ym mis Hydref 2018, mae'r gwasanaethau dan sylw wedi bod yn cael eu darparu gan Wasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru (TfW).

Mae gwefan Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru yn dangos nad oes mynediad heb risiau ar hyn o bryd i blatfformau yn yr orsaf. Mae hefyd yn dangos nad oes cadeiriau olwyn ar gael, na man gollwng ar gyfer pobl sydd â diffyg symudedd. Ar hyn o bryd nid oes gan yr orsaf doiled o unrhyw fath, boed hwnnw'n doiled hygyrch neu fel arall.

Mae cyhoeddiad ystadegol diweddaraf Llywodraeth Cymru yng hylch y defnydd o orsafoedd reilffordd yn dangos mai gorsaf Trefforest oedd y deuddegfed orsaf brysuraf ymhlith y 222 o orsafoedd yng Nghymru yn 2017-18, gyda thua 750,000 o bobl naill ai'n dechrau neu'n rhoi terfyn ar eu teithiau yno. Roedd y ffigur hwnnw'n cynrychioli gostyngiad o 7.1 y cant ers y flwyddyn flaenorol.

Mae Llinell Merthyr a Llinell Rhondda yn rhan o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru a sefydliad Trafnidiaeth Cymru yn cyfeirio ato wrth sôn am Linellau Craidd y Cymoedd - sef llinellau canol y Cymoedd a fydd yn cael eu trydaneiddio wrth gyflawni cam 2 o'r broses o ddatblygu Metro De Ddwyrain Cymru.

Nid yw'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru wedi'i ddatganoli, ac mae'r maes hwn yn gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. Yn yr un modd â mwyafrif y rheilffyrdd sy'n bodoli ym Mhrydain, Network Rail sy'n berchen ar Linellau Craidd y Cymoedd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n negodi'r broses o drosglwyddo perchnogaeth dros Linellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i Lywodraeth Cymru.

Ym mis Mai 2019, dywedodd Ken Skates AC, y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, wrth Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ei fod yn disgwyl y byddai'r broses drosglwyddo yn cael ei chwblhau erbyn 20 Medi. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd unrhyw gyhoeddiad wedi'i wneud.

O dan y contract a gafodd ei ddyfarnu i Wasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru, mae'r corff yn gweithredu fel Gweithredwr a Phartner Datblygu, gan

ddatblygu a darparu cynlluniau ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd yn ogystal â darparu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru, drwy gorff Trafnidiaeth Cymru, yn bwriadu buddsoddi £738 miliwn mewn trydaneiddio ac uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys buddsoddi mewn gorsafoedd.

Ym mis Mai, dywedodd y Gweinidog wrth Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau fod y gwaith dylunio rhagarweiniol wedi dechrau ym mis Chwefror. Dywedodd hefyd y byddai modd, o fewn y 12 neu 18 mis nesaf, gweld strwythurau'n dechrau ymddangos ar Linellau Craidd y Cymoedd.

Dywed gwefan Trafnidiaeth Cymru y bydd y prosiect yn cynnwys uwchraddio'r holl orsafoedd a'r gyfundrefn signalau. Mae'r corff hefyd wedi dweud ei fod yn gwella hygyrchedd yn ei orsafoedd a'i drenau, yn ogystal â gosod cyfleusterau toiled mewn nifer o orsafoedd Metro. Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd:

Bydd Metro'r De yn defnyddio cyfuniad o Gerbydau Metro a threnau trimod. Bydd eu drysau'n lefel â'r platfform...

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r llythyr a anfonwyd gan y Gweinidog at y Cadeirydd yn ymateb i'r ddeiseb hon yn nodi bod Trafnidiaeth Cymru wrthi'n datblygu cynlluniau ar gyfer gorsaf Trefforest:

Bydd y cynlluniau hynny'n golygu y bydd trefniadau mynediad gwell o lawer yn yr orsaf, yn ogystal â gwell cyfleusterau ar gyfer cwsmeriaid. Mae cynlluniau TC yn cynnwys pont droed hygyrch newydd a mynediad heb risiau o'r stryd i'r trê. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn yr orsaf ym mis Medi 2020.

Mae'r llythyr hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y gwaith hwn yn rhan o'r rhaglen Metro ehangach a fydd yn cymryd tua phum mlynedd i'w chwblhau. Dywed y Gweinidog ei fod wedi:

...gofyn i Trafnidiaeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ddechrau dylunio'r gronfa yn gynharach, a allai arwain at ddyddiad adeiladu cynharach. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu hyn oherwydd ddibyniaethau cymhleth y prosiect hwn mewn perthynas â'r rhaglen waith ehangach.

3. Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymddengys nad oes unrhyw drafodaethau wedi cael eu cynnal ar faterion hygrychedd yng Ngorsaf Trefforest yn ystod y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, yn dilyn ei ddatganiad llafar ym mis Mehefin 2018, pan gyhoeddodd fod y fasnachfaint wedi'i dyfarnu i gwmni KeolisAmey, atebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd gwestiynau gan Russell George AC, gan ddweud:

Rwy'n gwybod yn bersonol am nifer o orsafoedd, gan gynnwys fy ngorsaf fy hun, Rhiwabon, lle nad oes mynediad heb risiau, neu fynediad ychwanegol i fynediad grisiau yn unig. Caiff hynny ei unioni yn y trefniadau masnachfaint sydd ar droed. Bydd pob gorsaf yn ardal y metro hefyd yn hygrych heb risiau. Ac o ran toiledau, bydd toiledau ychwanegol ar orsafoedd o fewn y rhwydwaith metro i sicrhau, ar gyfer y datrysiad o fewn rhwydwaith craidd rheilffyrdd y Cymoedd, na fydd unrhyw deithiwr yn gorfod aros mwy na 14 munud cyn gallu defnyddio toiled mynediad cyffredinol.

Yn 2017 cynhaliodd y Pwyllgor Deisebau ymchwiliad i'r ddeiseb a ganlyn: P-05-710 Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Hydref 2017, flwyddyn cyn y cafodd y contract rheilffordd newydd ei ddyfarnu. Roedd dau o'r argymhellion a wnaed yn arbennig o berthnasol i'r ddeiseb hon:

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Network Rail a Llywodraeth y DU i wneud gwelliannau ffisegol i orsafoedd yng Nghymru sy'n anhygrych i bobl ag anableddau, a defnyddio ei phwerau ei hun i barhau i fuddsoddi mewn seilwaith hygrych fel y mae cyllidebau yn caniatáu.

Ac:

Argymhelliad 4: Rhaid i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru sicrhau bod y fanyleb derfynol ar gyfer masnachfaint rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau a datblygiadau'r Metro yn y dyfodol yn cynnwys gofyniad am welliannau sylweddol o ran hygrychedd gwasanaethau trenau a seilwaith y Metro ar draws pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Dylai ystyried cynnwys gwella hygrychedd fel rhwymedigaeth gytundebol graidd i'r gweithredwr llwyddiannus a'r partner datblygu.

Derbyniwyd y ddau argymhelliad dan sylw gan Lywodraeth Cymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.